| | |
|---|---|
| Dewi | Illtyd |
| Teilo | Peris |
| Beuno | Dwynwen |
| Deiniol | Seiriol |
| Gwenffrewi | Padrig |
| Cybi | Padarn |
| Gwyndaf | Cadfan |
| Aelhaearn | Crannog |
| Tudno | Dona |
| Pabo | Mihangel |

# Celf Cŵl



Y dasg ydi creu **llun trawiadol** o dy Sant di.

Defnyddia arddull liwgar ‘ffenest Eglwys.’

Os wyt ti eisiau syniadau neu ysbrydoliaeth, edrycha ar y we am ‘*pictures of Welsh Saints*’





## Meini Prawf Llwyddiant

– llun ‘pen ac ysgwydd’ o’r Sant mewn **pastiliau, sy’n llenwi’r cerdyn i gyd** (nid llun bach!)

– dylet geisio meddalu’r lliwiau i greu darlun meddal, yn hytrach nag ymylon caled. Defnyddia dusw yn hytrach na dy fysedd.

– creu y llun mewn arddull **portread** (*portrait*) ✓ nid tirlun (*landscape*) ✗

# Ysgrifennu Ysblennydd



Dy dasg yn ystod yr her yma ydi **ateb llythyr Seiriol**.

Rhaid i ti ddychmygu mai chdi ydi Cybi Sant.

Fe gei di ddefnyddio'r *Chromebook* i dy helpu i ddarganfod ffeithiau. Er enghraifft:

Annwyl Seiriol,
Diolch am dy lythyr caredig. 'Rydw i wedi blino ar yr holl gerdded yma ar draws hanner Ynys Môn pob dydd, felly mae derbyn llythyr yn wych! Mae fy nghroen yn grimp fel deilen ar ôl bod yn yr haul o hyd....

## Meini Prawf Llwyddiant

– cynnwys ffeithiau am fywyd Cybi Sant

– sut mae Cybi yn teimlo? Ydi o wedi blino ar ol yr holl gerdded? Ydi o'n hapus bod pawb yn ei alw'n Cybi Felyn?

– cofia ddefnyddio ansoddeiriau, 'Geiriau WAW/GWYCH' ac idiomau

Ynys Seiriol
Dydd Iau,
Medi 16, 513

Annwyl Cybi Felyn,

Sut wyt ti ers amser hir? Mae'n ddrwg gen i nad oeddwn i wedi gallu dy gyfarfod tro diwethaf - mi faglais a thorri 'nghoes - dwi methu cerdded cam!
Sut mae dy iechyd di?
Mae'n dawel yma a finnau ar fy mhen fy hun adref.
Wyt ti'n brysur? Wyt ti wedi iachâu rhywun yn ddiweddar neu gyflawni gwyrth?

Sut mae bywyd ar Ynys Cybi wrth i'r Haf droi'n Hydref? Mae to'r eglwys yn fan hyn yn gollwng a'r glaw yn dod i mewn!
Rwy'n edrych ymlaen at dy gyfarfod wrth Ffynnon Clorach pan fydd fy nghoes yn well. Wyt ti wedi meddwl mwy am sut i gadw'r haul oddi ar dy wyneb pan fyddi di'n cerdded i fy ngweld? Achos does neb wedi dyfeisio eli haul eto nagoes!?

Hwyl fawr tan hynny!
Cofion gorau,

Seiriol Wyn


5 mi
Amlwch
Llanerchymedd
Benllech
Llaingoch
Glan-yr-afon
Caergeiliog
Bodwrog
Talwrn
Porthaethwy / Menai Bridge
Aberffraw
Bethesda
Llanfairfechan
Llandudno
Conwy
Llanddulas
Rhyl
Prestatyn
Mostyn
Bodelwyddan
Bodfari
Nannerch
Llannefydd
Llanrwst
Bylchau
Llanrhaeadr
Maeshafn
Ruthin
Nant Peris
Capel Curig
Dolwyddelan
Pentrefoelas
Llanfihangel Glyn-Myfyr
Nantmor
Blaenau Ffestiniog
Garndolbenmaen
Penrhyndeudraeth
Criccieth
Bala
Bethel
CLWYDIAN RANGE AN
DEE VALLEY AONB
Y BERWYN NATIONAL
NATURE RESERVE
Llansilin
Harlech
Llanbedrog
SNOWDONIA
NATIONAL PARK
Pen-y-Bont-Fawr
Tal-y-bont
Llanwddyn
Llansantffraid-ym
SEINTIAU
Ysgol Rhostryfan - KMH 2021

# Y Daith



## Dyma Lwybr y Pererinon ar draws Ogledd Cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 - Abaty Dinas Basing i Bantasaph | 3 milltir | | 4.6 km | |
| 2 - Pantasaph i Faen Achwyfan | 3.3 milltir | | 5.3 km | |
| 3 - Maen Achwyfan i Lanasa | 2.7 milltir | | 4.3 km | |
| 4 – Llanasa i Drelawnyd | 2.4 milltir | | 3.8km | |
| 5 - Trelawnyd i Dremeirchion | 6 milltir | | 9.6 km | |
| 6 - Tremeirchion i Lanelwy | 3.5 milltir | | 5.6 km | |
| 7 - Llanelwy i Lannefydd | 6.3 milltir | | 10.1 km | |
| 8 - Llannefydd i Lansannan | 4.5 milltir | | 7.2 km | |
| 9 - Llansannan i Wytherin | 7.0 milltir | | 11.3 km | |
| 10 - Gwytherin i Bandy Tudur | 3.4 milltir | | 5.5 km | |
| 11 - Pandy Tudur i Langernyw | 2.5 milltir | | 4 km | |
| 12 - Llangernyw i Eglwysbach | 7.5 milltir | | 12 km | |
| 13 - Eglwysbach i Rowen | 3.5 milltir | | 6 km | |
| 14 - Rowen i Benmaenmawr | 4.4 milltir | | 7.0 km | |
| 15 - Penmaenmawr i Abergwyngregyn | 6.6 milltir | | 10.6km | |
| 16 - Abergwyngregyn i Fangor | 12.33 milltir | | 19.84km | |
| 17 - Bangor i Lanberis | 10.6 milltir | | 17.1km | |
| 18 - Llanberis i Waunfawr | 4.5 milltir | | 7.3 km | |
| 19 - Waunfawr i Benygroes | 7.1 milltir | | 11.5 km | |
| 20 - Penygroes i Glynnog Fawr | 6.3 milltir | | 10.5 km | |
| 21 - Clynnog Fawr i Drefor | 4 milltir | | 6 km | |
| 22 - Trefor i Nefyn | 6.3 milltir | | 9.6 km | |
| 23 - Nefyn i Dudweiliog | 6.8 milltir | | 11 km | |
| 24 - Tudweiliog i Borth Oer | 8 milltir | | 13 km | |
| 25 - Porth Oer i Aberdaron | 3.3 milltir | | 5.4 km | |

# Dewiniaid Digidol



Y dasg ydi **côdio Llwybr y Pererinion** gan gychwyn o Aberdaron ac anelu am Abaty Dinas Basing ger Treffynnon.




Cer i mewn i dy gyfrif Hwb a defnyddia'r canlynol:

- J2launch
- JT Code
- Visual

Y mwya' o droeadau sydd yn y daith, y gorau oll.

# Rhifedd Rhagorol



## Her 1

1. Pa mor bell yw hi o Abaty Dinas Basing i Bantasaph?

2. Mae o Bantasaph i Faen Achwyfan yn 3.3 milltir. Sut mae talgrynnu'r pellter i'r filltir agosaf?

3. Mae o Dremeirchion i Lanelwy yn 3.5 milltir. Sut mae talgrynnu'r pellter i'r filltir agosaf?

4. Pa mor bell ydi hi o Abaty Dinas Basing i Lanasa? Rho dy ateb mewn milltiroedd.

5. Os ydw i'n cychwyn cerdded yn Nhremeirchion ac yn cerdded i Bandy Tudur, sawl milltir ydw i wedi ei gerdded? *Gei di dalgrynnu'r ateb i'r filltir agosaf os yw hynny'n well gen ti.*

6. Pa mor bell, mewn kilomedrau yw hi o Glynnog Fawr i Drefor?

# Rhifedd Rhagorol



## Her 2

1. Talgrynna'r milltiroedd canlynol i'r filltir agosaf?

| | | |
|---|---|---|
| 2 - Pantasaph i Faen Achwyfan | 3.3 milltir | |
| 3 - Maen Achwyfan i Lanasa | 2.7 milltir | |
| 4 – Llanasa i Drelawnyd | 2.4 milltir | |
| 5 - Trelawnyd i Dremeirchion | 6 milltir | |
| 6 - Tremeirchion i Lanelwy | 3.5 milltir | |

2. Os ydw i'n cychwyn cerdded ym Maen Achwyfan ac yn gorffen cerdded yn Nhremeirchion, sawl milltir ydw i wedi ei gerdded? *Gei di dalgrynnu'r ateb i'r filltir agosaf os yw hynny'n well gen ti.*

3. Sawl kilomedr sydd rhwng Llanefydd â Gwytherin?

4. Sawl milltir sydd rhwng Pandy Tudur ag Eglwysbach?

5. Sawl kilomedr sydd rhwng Nefyn â Phorth Oer?

6. Mewn milltiroedd, pa mor bell ydi hi o Borth Oer i Aberdaron ac yn ol i Borth Oer?

7. Mewn milltiroedd, pa ran o'r daith yw'r hiraf?

8. Mewn kilomedrau, pa ran o'r daith yw'r byrraf?

# Rhifedd Rhagorol



## Her 3

1. Fesu rhan, talgrynna'r holl ddata i'r filltir agosaf.

2. Talgrynna'r holl ddata i'r kilomedr agosaf.

3. Beth yw hyd y daith mewn milltiroedd? [ ]

4. Beth yw hyd y daith mewn kilomedrau? [ ]

5. Os ydw i'n cychwyn yng Nghlynnog Fawr ac yn cerdded i Aberdaron ac yna'n ôl i Nefyn, sawl milltir fydda i wedi ei gerdded? [ ]

6. Pa ran o'r daith yw'r hiraf? Rhowch y nifer o filltiroedd yn y bocs cywir:
Llanasaph i Benmaenmawr [ ] Penygroes i Aberdaron [ ]

7. Mewn milltiroedd, pa ran o'r daith yw'r hiraf?

8. Beth yw hyd y daith o'r cychwyn i'r diwedd ac yna'n ôl i'r cychwyn? [ ]

9. Ble, yn fras, ar hyd y daith mae hanner ffordd? Mae gan bob rhan o'r daith rif, nodwch y rhif lle mae hanner ffordd. [ ]

# Rhifedd Rhagorol



## Her 4

1. Beth yw hyd y daith mewn milltiroedd?

2. Beth yw hyd y daith mewn kilomedrau?

3. Roedd y Pererinion yn cerdded o u pen i'r llall ac yn 3 gwaith. Pa mor bell felly oeddan nhw yn ei gerdded i gyd?
Mewn kilomedrau: Mewn milltiroedd:

4. Ble, yn fras, ar hyd y daith mae hanner ffordd? Mae gan bob rhan o'r daith rif, nodwch y rhif lle mae hanner ffordd.
Lle sydd agosaf at hanner ffordd?

5. Mae un Pererin yn cychwyn yn Nhrelawnyd ac yn cerdded i Lanberis cyn sylwi ei fod wedi gadael ei Feibl yn Llansannan. Mae'n mynd yn ôl i Lansannan ac yna'n ôl i Lanberis. Sawl milltir y mae o'n ei gerdded y diwrnod hwnnw?

6. Mae Pererin yn cerdded ar gyflymder o 3 milltir yr awr. Sawl awr o gerdded mae'n ei gymeryd i fynd o Abaty Dinas Basing i Drelawnyd?

7. Ar gyflymder o 3 milltir yr awr, pa mor hir mae'n ei gymeryd i gerdded y daith o'r cychwyn i'r diwedd. Rho dy ateb i'r awr agosaf.